LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



# TYFU EIN LLAIS CYMUNEDOL

Llais Gwent 2024–25

llaiscymru 01633 838516 ymholiadaugwent@llaiscymru.org



# TROSOLWG...

Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# EIN 3 PRIF RÔL:

1. Ymgysylltu â chi a gwrando arnoch am eich profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y byddwch yn ein gweld ni allan yn y gymuned, mewn digwyddiadau, mewn sesiynau galw heibio. Rydyn ni'n ceisio cwrdd â chi yn y lleoedd sy'n bwysig, i roi cyfle i chi ddweud eich dweud.
2. Cynrychioli eich barn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddyn nhw nawr roi gwybod i ni beth maen nhw'n bwriadu ei wneud â'ch adborth. Os na allant weithredu arno, mae angen iddynt ddweud pam wrthym.
3. Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion ym mhob rhan o Gymru ar gyfer cwynion am iechyd a gofal cymdeithasol.

# BLAENORIAETHAU GWENT AR GYFER 2024-25

- Gwasanaethau Cymunedol (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol)
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Cael gofal yn gyflym pan fyddwch ei angen



# EIN CYRHAEDDIAD

## Eiriolaeth

**513**

Cefnogir 513 o bobl gan ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion

## Ymgysylltu

**2100**

Ymgysyllton â 2100 o bobl i gael eu barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent

## Cynrychioliadau

**104**

104 o gynrychioliadau wedi'u gwneud i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol, gan sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio adborth pobl i lunio gwasanaethau

## Newid Gwasanaeth

**30**

Newidiadau Gwasanaeth mewn perthynas ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhannwyd gwasanaethau gyda Llais







# GWASANAETHAU CYMUNEDOL

Rydym wedi cynnal gweithgareddau ymchwil ac ymgysylltu amrywiol i ddeall argaeledd gwasanaethau cymunedol a phrofiadau cymunedau o gael mynediad atynt.

## Pobl Hŷn

Cynhaliodd Llais ac Access ymchwil i asesu integreiddio cymorth iechyd a gofal cymdeithasol o fewn gwasanaethau cymunedol i bobl hŷn (65+) yng Ngwent, a sut mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar atal.



Y nod oedd nodi meysydd o arfer da yn ogystal â bylchau mewn gwasanaethau, er mwyn llywio gwelliannau wrth integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Ngwent. Y meysydd ffocws allweddol oedd:

1) Cyfathrebu a gwybodaeth
2) Cefnogaeth Gymunedol
3) Trafnidiaeth
4) Gwasanaethau Iechyd
5) Tai

Crynodeb o'r heriau allweddol:

- Allgáu digidol oedolion hŷn (75+) a gwybodaeth wasgaredig
- Heriau o ran cael mynediad at gymorth cymunedol
- Materion trafnidiaeth hygyrch
- Bylchau yn y gwasanaethau iechyd wedi'u llenwi gan drydydd parti
- Diffyg cefnogaeth tai ac argaeledd cyfyngedig
- Diffyg integreiddio ar draws Cynghorau Lleol yn arwain at ddarpariaeth dameidiog ar draws y rhanbarth

Rhannwyd y wybodaeth hon â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.



# Mynediad i Feddygfeydd

Ym mis Chwefror 2025, gwnaeth Llais nifer o sylwadau a chynhaliodd gyfres o ymgysylltu ar y safle mewn amryw o bractisau meddygon teulu ledled Gwent, i gasglu adborth gan y gymuned ynghylch eu profiadau o gael mynediad i wasanaethau.

- Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl (Prif Feddygfa)
- Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl (New Inn)
- Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl (Meddygfa Goetre)
- Canolfan Iechyd a Lles Bevan (Practis Meddygol Tredegar)
- Practis Meddygol Blaenafon
- Canolfan Feddygol Llyswerry
- Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni (Practis Meddygfa Cwm Rhymni)
- Meddygfa Gelligaer Surgery
- Meddygfa Bryntirion
- Canolfan Feddygol Markham

Ysgogwyd y fenter hon gan bryderon a godwyd gan bobl a chymunedau ynghylch mynediad at wasanaethau meddygon teulu tua diwedd 2024. Roedd materion a adroddwyd i ni yn ymwneud â phractisau a reolir gan Bartneriaeth Meddygon Teulu Dr Ahmed a Dr Allinson, ac E-Harley Street Primary Care Solutions - cwmni rheoli a sefydlwyd gan y partneriaid meddygon teulu â chyfrifoldeb am weinyddu eu practisau, yn peri pryder arbennig.

## Felly beth?

Gan ddefnyddio lleisiau pobl, fe wnaethom goladu'r wybodaeth a dderbyniwyd a chyflwyno sylwadau i'r Tîm Gofal Sylfaenol am beiriannau hunan-gofrestru, mynediad i apwyntiadau ac Ap y GIG.

Gallwch ddarllen ein hadroddiad llawn a'n hymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yma



# CAEL GOFAL YN GYFLYM PAN FYDDWCH EI ANGEN

## Digon o aros: Mae Llais eisiau gweithredu brys ar ofal brys yng Nghymru








Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llais wedi bod yn clywed llawer am yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu pan fo angen gofal iechyd brys yng Nghymru.

Dros 5 wythnos gan ddechrau ddiwedd mis Medi 2024, ymwelodd ein timau â 42 o ysbytai ledled Cymru, gan gynnwys Unedau Mân Anafiadau, Unedau Asesu Meddygol ac Adrannau Achosion Brys, i gasglu profiadau pobl. Fe wnaethom hefyd gynnal arolwg ar-lein a grwpiau ffocws. Yn gyfan gwbl, clywsom gan dros 700 o bobl am eu profiadau gofal iechyd brys.

Rydym wedi cyflwyno ein datganiad sefyllfa a'n hadroddiad llawn i fyrddau iechyd ledled Cymru ar gyfer ymateb i sylwadau gan gynnwys gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.

# GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL



Amlygodd pobl a lleisiau cymunedol Gwent, ynghyd â dull "person cyfan, system gyfan", fod Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn peri pryder sylweddol yng Ngwent a ledled Cymru. Roedd mynediad Plant a Phobl Ifanc at gymorth iechyd meddwl yn gyrru'r angen am welliant a amlygwyd yn yr adroddiad ar y cyd gan yr arolygiaethau iechyd, gofal ac addysg yng Nghymru.



Mae Llais eisiau sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, felly gwnaeth Iechyd Meddwl yn flaenoriaeth ffocws yng Ngwent ar gyfer 2024-25. Fe wnaethom gynnal cymysgedd o ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cipio lleisiau staff sy'n gweithio yn y maes, pobl a chymunedau:

- Arolwg Iechyd Meddwl
- Ymgysylltu ar y safle mewn wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol
- Trawsnewid y Ddesg Dyletswydd Iechyd Meddwl Cymunedol gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mewnwelediadau o'n Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion
- Cyd-gynhyrchu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r datganiad gweledigaeth ar gyfer strategaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu
- Sgyrsiau cynnar ac ymglymiad Llais â'r Coleg Adferiad Lleol

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma

# EDRYCH YMLAEN...

Wrth i ni gloi eleni, rydym yn myfyrio ar y mewnwelediadau amhrisiadwy a'r ddealltwriaeth ddyfnach rydym wedi'u casglu gan bobl a chymunedau ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Gwent. Rydyn ni yma i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch barn a'ch profiadau i gynllunio a darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cawn ein cymell i wella a gwella gwasanaethau yn y dyfodol gyda lleisiau pobl yn ganolog, gan sicrhau bod anghenion pobl a chymunedau yn cael eu diwallu gyda thosturi ac effeithiolrwydd.



# FFORMATAU HYGYRCHOL

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iath arall, cysylltwch â ni.
Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan newu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa

## Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth chi'n ei feddwl am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

## Manylion cyswllt

Rhanbarth Llais Gwent,
Tŷ Raglan,
Parc Busnes,
Llantarnam,
Cwmbran
NP44 3AB

Ffôn: 01633 838516
E-bost: ymholiadaugwent@llaiscymru.org
Website: www.llaiscymru.org
Facebook: @gwentllais
X: Llais_wales